# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 13 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cynrychioli Cymru Dramor

**C13 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei drafodaethau diweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y modd y caiff Cymru ei chynrychioli dramor? (OAQ10245)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel yr eglurais mewn ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn cynharach ar 6 Mawrth, mae'r mater hwn wedi cael ei drafod yn gyffredinol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ond nid mewn cyfarfod penodol.

### Gwella Hawliau Gweithwyr

**C14 Brian Gibbons:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y dulliau posibl o wella hawliau gweithwyr i gael eu hysbysu am benderfyniadau mawr gan gwmnïau a fydd yn effeithio arnynt? (OAQ10244)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar 18 Ionawr 2001, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant adolygiad o'n cyfreithiau domestig ynglŷn ag ymgynghori, yn enwedig yng nghyd-destun ein darpariaethau presennol mewn perthynas â diswyddiadau torfol a chynghorau gwaith Ewropeaidd. Mae pryderon ynghylch diffyg ymgynghori, yn enwedig mewn perthynas â diswyddiadau a gyhoeddir yn ddisymwth yn y cyfryngau. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi sylw i'r pryderon hynny ac yn canolbwyntio ar sut y gall cwmnïau amlwladol wella eu dulliau gweithredu mewn perthynas ag achosion diswyddo.

Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn parhau am oddeutu pedwar neu bum mis, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ynghyd â grwpiau perthnasol eraill gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Chyngres yr Undebau Llafur. Mae'r mater hwn wedi bod dan sylw yn fy nghyfarfodydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Y Cyngor Partneriaeth Busnes

**C15 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch sefydlu cysylltiadau cryfach â Chynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ10246)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar hyn o bryd yr ydym yn ystyried cynnig i sefydlu uned cefnogi busnes i gryfhau cysylltiadau rhwng ein partneriaid a'r Cynulliad. Mae'r cynnig wedi cael ei drafod gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes.

### Datblygu Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

**C16 John Griffiths:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru â'r Taoiseach yn ystod ei ymweliad diweddar ynghylch datblygu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon? (OAQ10243) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Targedau 'Gwellcymru.com' ar gyfer Creu Swyddi

**C17 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y targedau ar gyfer creu swyddi fel y'u nodir yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ10262)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyhoeddwyd 'Gwellcymru.com' ym Mai 2000 ac yr oedd yn cynnwys targedau ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. Felly, nid oes blwyddyn lawn wedi mynd heibio ers gosod y targedau. Byddwn yn cofnodi'r cynnydd tuag at y targedau yn adroddiad blynyddol ac adroddiad perfformiad y Cynulliad yr hydref hwn.

### Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C18 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd yn ôl ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â Chanolfan Ewropeaidd Cymru ynghylch ei flaenoriaethau fel y'u nodir yn ei strategaeth lobïo flynyddol? (OAQ10241)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar hyn o bryd fersiwn drafft yw strategaeth lobïo flynyddol Canolfan Ewropeaidd Cymru. Mae'r Cynulliad ymysg y partneriaid yr ymgynghorir â hwy yn ei chylch. Mae strategaeth lobïo'r ganolfan yn amodol ar adolygiadau drwy gydol y flwyddyn mewn perthynas â newid mewn blaenoriaethau.

Yn ogystal, mae gan y Cynulliad ei ymarfer ei hun ar waith sydd yn archwilio goblygiadau rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd.

### Rhaglen Fusnes Flynyddol y Llywodraeth

**C19 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r amcanion a nodir yn rhaglen fusnes flynyddol y Llywodraeth y gwnaethpwyd datganiad yn ei chylch i'r Cynulliad ar 21 Tachwedd 2000? (OAQ10254) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rôl fel Cydgysylltydd Datblygu Polisi

**C20 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei rôl fel cydgysylltydd datblygu polisi? (OAQ10255) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynrychiolaeth Cymru yn yr Undeb Ewropeiadd

**C21 Ieuan Wyn Jones:** Fel y Gweinidog sydd yn rheoli dimensiwn Ewropeaidd polisi'r Cynulliad, pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n llawn ac yn ddigonol yn yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ10247)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, caiff Cymru ei chynrychioli ar hyn o bryd gan bum Aelod Seneddol Ewropeaidd Cymreig ac mae ganddi gynrychiolaeth ar Bwyllgor y Rhanbarthau ac ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol.

Mae'n bwysig i Gymru chwarae rhan lawn o ran datblygu polisïau'r UE ac yr ydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb Gweinidogion y Cynulliad yng nghynghorau'r UE. Dros y misoedd diwethaf mae Gweinidogion y Cynulliad wedi mynychu'r Cynghorau Amaethyddiaeth, Addysg, Ieuenctid a Iechyd, gan gynnwys arwain dirprwyaeth y DU yn y Cynghorau Ieuenctid ac Addysg ar 9 Tachwedd. Yn ogystal â chael cynrychiolwyr o fewn y gwahanol sefydliadau, yr ydym yn parhau i archwilio cyfleoedd newydd ac yn manteisio ar gyfleoedd presennol er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru.

### Cyrraedd Targedau 'Gwellcymru.com'

**C22 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y camau a gymerir tuag at gyrraedd targedau 'Gwellcymru.com'? (OAQ10237)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn llafar Rhodri Glyn Thomas (OAQ9323) ar 6 Chwefror.

## Hyrwyddo Tryloywder o fewn Llywodraeth Cymru

**C23 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar sut y mae'n ceisio hyrwyddo tryloywder o fewn Llywodraeth Cymru? (OAQ10248)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn ar 6 Mawrth (OAQ10071).

## Materion Trawsbynciol

**C24 Cynog Dafis:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei rôl fel cydgysylltydd datblygu polisi ar gyfer materion trawsbynciol? (OAQ10251)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol i'ch cwestiwn tebyg (OAQ10070), ar 6 Mawrth.

## Codi Proffil Cymru yn Ewrop

**C25 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â chynrychiolwyr yr Undeb Ewropeaidd ynghylch codi proffil Cymru yn Ewrop? (OAQ10250)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, byddaf yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau'r UE i drafod materion Ewropeaidd, gan gynnwys sut y gall y Cynulliad godi ei broffil yn Ewrop. Ar 28 Chwefror, bûm ym Mrwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd a oedd yn ymwneud ag agenda polisi a phroffil y Cynulliad yn yr UE. Ymysg dyletswyddau eraill, yr oeddwn yn llywydd ar dderbyniad yn Senedd Ewrop i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Yr oedd y digwyddiad dydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Celtic Manor hefyd yn rhoi cyfle i gynnal dadl eang ac amrywiol am Gymru, Ewrop a'r byd tu hwnt. Yr oedd cynrychiolwyr o sefydliadau'r UE ac aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn bresennol ynghyd ag aelodau o'r corfflu diplomyddol sydd â'i ganolfan yn Llundain ac aelodau Pwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad. Dyfarnwyd bod y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol.

## Cryfhau Delwedd Cymru yn yr Unol Daleithiau

**C26 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Llywodraeth San Steffan ynghylch cryfhau delwedd Cymru yn yr Unol Daleithiau? (OAQ10276)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim yn benodol. Fodd bynnag, mae cysylltiadau rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau yn dda iawn ac yn gwella. Mae Llysgenhadaeth yr UD wedi agor swyddfa conswl yng Nghaerdydd a phenodwyd Swyddog Materion Cymreig sydd yn benodol gyfrifol am hyrwyddo cysylltiadau agosach rhwng yr Unol Daleithiau a Chymru.

Yr ydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau masnach drwy MasnachCymru Rhyngwladol a'i is-adran cyfleoedd busnes rhyngwladol, a thrwy Trade Partners UK–cangen fasnach ryngwladol Llywodraeth y DU.

Ar hyn o bryd mae gan Awdurdod Datblygu Cymru saith swyddfa yn yr Unol Daleithiau ac mae wrthi'n frwd yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng Cymru a Gogledd America. Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn weithgar wrth hyrwyddo Cymru dramor.

Yr wyf yn bwriadu ymweld â Chaliffornia yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn i fynychu Gŵyl Cymru 2001.